



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | *Rheolwr Perthnasoedd* |
| **Yn atebol i** | *Cyfarwyddwr Cynorthwyol Darpariaeth y System Chwaraeon a Phartneriaethau* |

## Pwrpas y swydd

Pwrpas Chwaraeon Cymru yw galluogi i Chwaraeon yng Nghymru ffynnu. Bydd ein perthnasoedd gyda phartneriaid, yn y pen draw, yn penderfynu ar ein capasiti i gyflawni hyn. Yn ein strategaeth, rydym wedi ymrwymo i ddull o weithredu sy'n cydnabod y bydd rhaid i ni weithio mewn ffordd wahanol iawn gyda'n partneriaid. Fel ein cyswllt allweddol, byddwch yn ymgorffori'r dull hwn o weithio ac yn gyfrifol am ei lwyddiant. Bydd hyn yn fwy heriol mewn rôl ymatebol sy'n esblygu o hyd lle bydd anghenion y berthynas yn bwrpasol i bob partner.

Byddwch yn datblygu ac yn cynnal perthnasoedd rhagorol a dibynadwy gydag uwch arweinwyr er mwyn cefnogi, datblygu a herio uchelgeisiau strategol a sbarduno newid trawsffurfiol, newid diwylliant a gwelliant parhaus.

Drwy eich perthnasoedd, byddwch yn sicrhau dealltwriaeth drwyadl o'n partneriaid: eu diwylliant, eu dull o weithredu, yr heriau maent yn eu hwynebu a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Bydd arnoch angen dull o sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a'r sgiliau i wneud hyn mewn ffordd sy'n annog pobl i fod yn agored a rhannu. Byddwch yn ychwanegu gwerth sylweddol at ein partneriaid, drwy eich rhyngweithio eich hun a thrwy hwyluso mynediad i becyn pwrpasol o wasanaethau, a byddwch yn chwarae rhan allweddol mewn adolygu effeithiolrwydd y pecyn hwn.

Bydd gennych ddealltwriaeth drwyadl o gymhlethdod chwaraeon a byddwch yn gyfforddus yn gweithio gyda'r anhysbys. Yn cael eich arwain gan dystiolaeth a dirnadaeth, byddwch wedi ymrwymo i ddysgu a chefnogi eraill i ddysgu (yn y partneriaid ac ar draws partneriaid) gyda ffocws ar wella yn hytrach na 'chael pethau'n iawn'. Gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth o'r sector sydd wedi'i sicrhau drwy berthnasoedd cadarn o gydweithiwr i gydweithiwr, byddwch yn annog

ac yn herio cydweithwyr yn fewnol i sicrhau bod eu gwaith yn ymateb i anghenion ein partneriaid ni.

## Prif ddyletswyddau

- Arwain ac ysbrydoli partneriaid i alluogi Chwaraeon yng Nghymru i ffynnu. Darparu'r cyswllt lefel strategol i sefydliadau partner – gan ymgorffori yn y sefydliad i sicrhau dealltwriaeth drwyadl a hefyd cynnal amhleidioldeb.

- Datblygu perthnasoedd rhagorol a dibynadwy gan ddefnyddio dulliau rhyngbersonol a chyfathrebu gydag uwch arweinwyr a dylanwadwyr allweddol yn ein partneriaid er mwyn cefnogi a herio uchelgeisiau strategol a chreu newid trawsffurfiol.

- Gweithio gyda phartneriaid ym mha ffordd bynnag sy'n gweddu iddynt hwy i greu trafodaeth, datblygu gwybodaeth a thystiolaeth, a sicrhau cynnydd yn y dysgu am feysydd a fydd yn galluogi cyflawni casgliadol ar y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

- Darparu cefnogaeth i bartneriaid er mwyn adnabod meysydd o her ac o gyfle. Gweithio gyda'r tîm datblygu gwasanaethau ac eraill ar draws Chwaraeon Cymru i hwyluso ac adolygu pecyn gwasanaethau pwrpasol ar gyfer partneriaid sy'n cyfateb i anghenion a dulliau gweithredu partneriaid unigol (ac, os yw hynny'n briodol, yn gasgliadol).

- Cefnogi a rhoi gwybodaeth i gydweithwyr ar draws Chwaraeon Cymru i ddatblygu dysgu allweddol, argymhellion polisi a goblygiadau o ran adnoddau drwy'r deallusrwydd gaiff ei gasglu o weithio gyda phartneriaid.

- Hwyluso digwyddiadau dysgu dan arweiniad partneriaid lle gall partneriaid gyda chryfderau dysgu rannu'r rhain yn uniongyrchol gyda phartneriaid eraill sydd â diddordeb. Gweithio gyda rheolwyr perthnasoedd eraill a thimau datblygu gwasanaethau i hwyluso cyfleoedd cydweithredu ar gyfer partneriaid sy'n gweithio ar faterion tebyg i ddod at ei gilydd i wneud hynny.

- Sicrhau cefnogaeth ac ymrwymiad partïon perthnasol wrth geisio'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, a rheoli gwrthdaro i leihau tensiwn mewn sefyllfaoedd antagonistig gan roi sylw i broblemau sylfaenol.

- Cronni a dadansoddi gwahanol fathau o dystiolaeth, data a dirnadaeth i gefnogi partneriaid wrth iddynt wneud penderfyniadau gweithredol ac fel sail i gyfeiriad strategol.

- Chwarae rhan allweddol mewn sbarduno diwylliant mewnol a phartner sy'n meithrin amgylchedd o welliant parhaus a cheisio llwyddiant.

- Deall ac ymateb i anghenion gwybodaeth partneriaid – gan helpu i gefnogi a herio datblygiad eu data a'u tystiolaeth, yn ogystal ag adnabod meysydd lle mae angen darparu gwybodaeth arbenigol.

- Gweithio gyda'r timau gwybodaeth a datblygu gwasanaethau i dynnu sylw at anghenion gwybodaeth partneriaid a gweithio i roi sylw i'r bylchau gwybodaeth a sgiliau yn y sector.

- Gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid a'r tîm cyfathrebu er mwyn adnabod a datblygu astudiaethau achos sy'n gallu cefnogi gweithgareddau sydd â'r nod o annog rhanddeiliaid i gydnabod y cyfraniad positif mae chwaraeon yn ei wneud.

- Croesawu technoleg ddigidol (gan gynnwys system Rheoli Perthnasoedd Cwsmeriaid [CRM]) i rannu gwybodaeth a syniadau perthnasol ar draws y meysydd busnes a galluogi dull pwrpasol o gefnogi ac ymgysylltu â phartneriaid o bob rhan o Chwaraeon Cymru.

- Cyflawni cyfrifoldebau sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth rhagorol ar ran Chwaraeon Cymru mewn perthynas â'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cydraddoldeb, Diogelwch Gwybodaeth, Rheoli Risg, Diogelu, Rheoliadau Ariannol ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

- Gweithio'n hyblyg, gan gyflawni unrhyw ddyletswyddau yn ôl yr angen, pan maent yn berthnasol i'r swydd ac yn briodol i'w graddfa.

**Ein Gwerthoedd**:

Byddwn yn gwneud y canlynol:
**Dysgu Gyda'n Gilydd**
Archwilio, profi ac adolygu yn gyson.

**Cyflawni Gyda'n Gilydd**
Rhannu canlyniadau, meithrin perthnasoedd agored a gonest, darparu adborth cadarn, gwella perfformiad yn gyson.

**Dathlu Gyda'n Gilydd**
Cydnabod ein llwyddiannau a rennir drwy bartneriaid effeithiol.

**Drwy wneud y canlynol:**

**Gweithredu'n Ddidwyll**
Deall a Pharchu diwylliant a gwerthoedd ein gilydd. Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Ychwanegu Gwerth**
Sicrhau'r gymysgedd orau bosib o gefnogaeth, her, buddsoddiad, sgiliau ac arbenigedd i gyflawni ein canlyniadau a rennir.

**Annog Arloesi**
Croesawu syniadau a dulliau gweithredu newydd a chefnogi uchelgais a meddwl o'r newydd. Peidio ag ofni teimlo'n anghyfforddus.

**Manyleb y person**

| | **Gofynion Hanfodol** | **Gofynion Dymunol** |
|---|---|---|
| **Addysg:** | *Addysg hyd at lefel gradd (neu gyfatebol)* | *Cymhwyster ôl-radd mewn maes perthnasol* |

| | | |
|---|---|---|
| | *Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth* | |
| **Profiad:** | *Gwybodaeth am y System Chwaraeon yng Nghymru a gallu arwain dull cydlynol o ddarparu ar draws pob agwedd ar y system honno*<br><br>*Profiad o arwain a chydlynu sawl prosiect cymhleth ar yr un pryd*<br><br>*Gwybodaeth arbenigol am ddull strategol Chwaraeon Cymru o weithredu a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni yn y system chwaraeon*<br><br>*Profiad o weithredu modelau darparu newydd a datblygu ac addasu'r rhain yn seiliedig ar wybodaeth a dysg*<br><br>*Gwybodaeth arbenigol am reoli perthnasoedd yn effeithiol ar draws rhwydwaith amrywiol o bartneriaid*<br><br>*Profiad o ddylanwadu ar dimau arweinyddiaeth, strategaethau a pholisi partneriaid a phennu nodau ar y cyd* | *Profiad o weithio yn y sector chwaraeon*<br><br>*Profiad o arweinyddiaeth strategol mewn diwydiant cysylltiedig*<br><br>*Gallu dylanwadu ar bolisi a strategaeth chwaraeon ar lefel system*<br><br>*Tystiolaeth o gefnogi Timau Gweithredol yn rhagweithiol* |
| **Sgiliau, Doniau a Galluoedd:** | *Deall cymhlethdod a gallu dangos cyfforddusrwydd wrth weithio yn y ffordd hon; gallu delio ag amrywiaeth o sefyllfaoedd cymhleth yn aml ac yn gyfforddus â methu bod â'r ateb bob amser*<br><br>*Gallu meithrin perthnasoedd dibynadwy*<br><br>*Cyfrwng i holi am ddealltwriaeth ddyfnach a sgiliau i wneud hynny mewn ffordd sy'n annog pobl i fod yn agored a rhannu*<br><br>*Gallu trosi bwriad strategol yn ddarparu gweithredol; ymroddiad i ddysgu a chefnogi eraill i ddysgu – ffocws ar wella ac nid ar 'gael pethau'n iawn'*<br><br>*Gallu blaenoriaethu a bod yn hyblyg iawn a gallu newid blaenoriaethau'n gyfforddus pan fynnir hynny* | ***Gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar***<br><br>*Deall yr elfennau hanfodol mewn timau perfformiad uchel ac yn gallu meithrin y rhain gan ddefnyddio sgiliau arweinyddiaeth effeithiol*<br><br>***Gallu sefydlu prosiectau,** pennu nodau, diffinio swyddogaethau a thracio cynnydd, adolygu, gwerthuso a gweithredu dysgu i sicrhau'r effaith orau bosib* |

| | | |
|---|---|---|
| | *Arwain ac ysbrydoli eraill, ennill parch cydweithwyr a phartneriaid a meithrin perthnasoedd cadarn ar draws partneriaethau allweddol i ddylanwadu ar welliant parhaus a sbarduno newid*<br><br>*Hynod fedrus am roi a derbyn adborth gyda dewrder i wneud hynny a gweithredu'n ddidwyll bob amser, gan greu amgylchedd i bobl gyflawni eu llawn botensial*<br><br>*Ysgwyddo cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau'n seiliedig ar werthuso trwyadl ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael, a'r risgiau, dal yr hunan ac eraill yn atebol am ddarpariaeth a safonau*<br><br>*Symud gwaith yn ei flaen yn gyflym a sicrhau bod eraill yn ymwybodol ac yn gallu ymateb yn bositif; gallu addasu'n gyflym pan mae blaenoriaethau'n newid ac addasu i sefyllfaoedd dan bwysau a gweithredu rheolaeth dda*<br><br>*Hybu rhannu gwybodaeth oddi mewn i'ch tîm eich hun a thu hwnt*<br><br>*Gallu cyfathrebu gan ddarbwyllo a dylanwadu ar lefel uwch ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys cynigion busnes, papurau bwrdd ac ysgrifennu adroddiadau ffurfiol* | |
| Amgylchiadau Arbennig: | *Gallu gweithio'n hyblyg, gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa arferol*<br><br>*Gallu teithio yn ôl yr angen*<br><br>*Dull egnïol, brwd a dymunol o weithio gyda hygrededd a phroffil i ennyn hyder a pharch partneriaid* | |